

## Posau Dyfalu Beth yw'r Pethau

Mae Dŵr Cymru'n gofalu am amgylcheddau, anifeiliaid a phlanhigion.

Mi fuoch chi yn ein Canolfan Ddarganfod a defnyddio map i chwilio am gliwiau. Beth am esgus eich bod chi wedi cuddio deg o bethau yn y goedwig? Ysgrifennwch bos ar gyfer pob un o'r pethau gan roi cliwiau i'r plant eraill yn y dosbarth.

Dyma rai enghreifftiau.

	<p>Beth ydw i? Rwy yr un lliw â glaswellt. Rydych chi'n fy llenwi â dŵr. Mae gen i big neu ffroenell. Rwy'n cael fy nefnyddio i roi dŵr i blanhigion. Beth ydw i?</p>
<p>Beth ydw i? Rydych yn fy rhoi yn sownd wrth dap. Rydych yn fy nefnyddio i lenwi pyllau padlo. Rwy'n cael fy nefnyddio i olchi ceir hefyd. Rwy'n hir fel neidr. Beth ydw i?</p>	

Dewiswch 8 o bethau ac ysgrifennu cliwiau fel y gall pobl ddyfalu beth ydynt.

Mae'n rhaid i'ch cliwiau fod yn glir a bod eich ffrind yn gallu eu deall.



Cofiwch atalnodi.  
A ., ? ! : ; ... ()

Dilynwch y patrwm uchod.  
Pedwar cliw ar gyfer pob un o'r pethau.